# Anabledd Dysgu Cymru Adolygiad Blynyddol

Ebrill 2020 – Mawrth 2021



**Ymateb i'r pandemig, dylanwadu ar bolisi, hyfforddiant a digwyddiadau, Engage to Change, Ffrindiau Gigiau Cymru, Senedd Ieuenctid Cymru, cefnogi rhieni ag anabledd dysgu, Pobl yr 21ain Ganrif, a llawer mwy**

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Negeseuon croeso** | **tudalen 3** |
| **Teyrnged i Sam Jenkins** | **5** |
| **Ymateb i'r pandemig** | **6** |
| **Eich hysbysu a chadw mewn cysylltiad** | **6** |
| **Hawdd Ei Ddeall Cymru** | **7** |
| **Dylanwadu ar bolisi** | **8** |
| **Engage to Change** | **12** |
| **Gwaith polisi cyflogaeth gan Engage to Change** | **14** |
| **Hyfforddiant a digwyddiadau** | **15** |
| **Gofalu am les ein staff** | **17** |
| **Ffrindiau Gigiau Cymru** | **18** |
| **Ein Staff** | **21** |
| **Pobl yr 21ain Ganrif** | **22** |
| **Ein hymddiriedolwyr a'n haelodau** | **26** |
| **Ein harian** | **27** |
| **Ein blwyddyn mewn rhifau** | **28** |










**Rydym am i Gymru fod y wlad orau yn y byd i bobl ag anabledd dysgu fyw, dysgu a gweithio ynddi**

## Cadw mewn cysylltiad


Anabledd Dysgu Cymru, 41 Lambourne Crescent, Parc Busnes Caerdydd, Llanisien, Caerdydd CF14 5GG
Ffôn: 029 2068 1160 www.adcymru.org.uk

Cwmni Cyfyngedig drwy warant: 02326324
Elusen Gofrestredig: 1062858
Rhif Cofrestredig TAW: 762 4559 11

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

enquiries@ldw.org.uk
/learningdisabilitywales
@LdWales



# Neges groeso

## Gan ein Cadeirydd, Jon Day

Blwyddyn arall, llawer o newid a llawer yn aros yr un fath. O ran newid, fe ddes i mewn fel Cadeirydd ym mis Rhagfyr 2020 yn lle Phil Madden, a hoffwn ddiolch yn bersonol iddo fe am ei arweiniad a'i gyfeiriad i Anabledd Dysgu Cymru mewn rhai cyfnodau anodd dros y blynyddoedd diwethaf ac yn fwy diweddar drwy'r pandemig.

Y newid mwyaf, wrth gwrs, oedd y pandemig a'r heriau mae hyn wedi'u cyflwyno i ni fel sefydliad ac i bob un ohonom fel poblogaeth. Yr hyn sydd wedi aros yr un fath, fodd bynnag, yw ymrwymiad ac ymroddiad llwyr y tîm staff, dan arweiniad gwych Zoe ein Prif Swyddog Gweithredol, sydd i gyd wedi ymateb yn rhagorol i'r her o weithio o bell a'r ansicrwydd parhaus a ddaeth yn sgil y pandemig hwn.

Rydym wedi cryfhau ein trefniadau llywodraethu eleni a gyda'r recriwtio cywir dros y misoedd nesaf byddwn yn adeiladu ar y dalent sy'n bodoli ar lefel bwrdd gan ganiatáu i ni symud ymlaen yn hyderus.

Nid wyf am restru'r ystod o waith a gweithgareddau mae'r tîm wedi bod yn rhan ohonynt gan fod hyn yn cael ei ddarlunio'n glir ac yn wych drwy gydol yr adroddiad blynyddol hwn. Y gwaith hwn yw'r hyn sy'n ein harwain i fod yn bartner allweddol ledled Cymru, gyda Llywodraeth Cymru a'r Consortiwm Anabledd Dysgu yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol eraill, ac yn sicrhau ein bod yn mynd at ein holl uchelgeisiau mewn modd cydweithredol ac ymgynghorol.

Hoffwn nodi'n benodol pa mor falch oeddwn i o'r rôl y chwaraeodd y sefydliad wrth ymgymryd â'r materion "Peidiwch â Cheisio CPR" a blaenoriaethau brechu, a'r effaith a gafodd hyn ar bobl ag anabledd dysgu. Arweiniodd hyn at ddadl bwysig a gwell canlyniadau nid yn unig ar lefel Cymru ond hefyd ar lefel y DU. Mae cyfathrebu i mewn ac allan o'r sefydliad yn gwbl hanfodol a rhoddwyd sylw i'r materion hyn yn arbenigol a'u rheoli gan y sefydliad i yn llwyddiannus iawn.

Ar nodyn personol, hoffwn ddiolch i'm cyd-ymddiriedolwyr a'r tîm staff sydd wedi rhoi croeso mor gynnes i mi fel Cadeirydd ac sydd wedi bod mor gefnogol yn fy mlwyddyn gyntaf.



# Neges groeso

## Gan ein Prif Weithredwr, Zoe Richards

Dechreuodd ein blwyddyn gyda swyddfa wedi cau, tîm nerfus a thasg enfawr o'n blaenau i sicrhau bod ein haelodau'n teimlo'n gysylltiedig, yn wybodus, yn teimlo eu bod nhw'n cael eu clywed a'u deall. Gyda rhywfaint o'n gwaith yn cael ei roi o'r neiltu a chyfarfodydd a digwyddiadau wyneb yn wyneb wedi'u canslo, bu'n rhaid i ni ad-drefnu, addasu a dysgu ar gyflymder nad oeddem erioed wedi'i brofi o'r blaen. Fe welwch o'r adroddiad hwn ein bod wedi gwneud hynny.

Fe wnaethom gyfuno partneriaethau newydd a chryfhau'r rhai presennol. Roedd hyn yn dod â ni'n agos at wneuthurwyr penderfyniadau a sicrhau ein bod ar flaen y gad o ran atebion. Roeddem yn gwybod mai gwybodaeth hygyrch, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl a chynrychiolaeth fyddai ein meysydd gwaith pwysicaf. Rhannodd ein tîm eu sgiliau fel y gallem ddarparu gwybodaeth hawdd ei deall am yr holl ddatblygiadau pwysig sy'n gysylltiedig â'r pandemig. Fe wnaethom gynyddu ein tîm polisi i sicrhau bod newidiadau sy'n cael eu gwneud gan Lywodraethau, awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn cael eu llywio gan ein haelodau a'r gymuned anabledd dysgu.

Mae Ffrindiau Gigiau yn ymwneud â chysylltu ac fe ddaethom o hyd i ffyrdd newydd o sicrhau bod pobl mewn cysylltiad â phartïon ar-lein gwych. Roedd yn rhaid i Engage to Change gefnogi pobl ifanc i naill ai barhau i weithio'n ddiogel neu addasu i gefnogi'r rhai a gafodd eu hunain ar ffyrlo a heb waith. Daethom yn bartneriaid yn astudiaeth Covid y DU a recriwtio cyfranogwyr i adrodd eu straeon am sut mae Covid wedi effeithio ar bobl ag anabledd dysgu. Lansiwyd Pobl yr 21ain Ganrif a daethom o hyd i ffyrdd newydd o gysylltu drwy ein rhwydweithiau ar-lein – gan gefnogi pobl i ddod at ei gilydd ac archwilio'r materion sy'n effeithio arnynt drwy ein grant gan Lywodraeth Cymru. Roedd newid i sesiynau hyfforddi ar-lein yn golygu ein bod wedi cyrraedd mwy o bobl nag erioed o'r blaen.

Fe wyddom fod bywydau pobl ag anabledd dysgu wedi cael eu heffeithio'n fwy nag eraill yn ystod Covid ac mae'r tîm wedi gweithio'n ddiflino i wneud newidiadau ac ychwanegu ein llais at lu o bobl eraill i ddod o hyd i atebion. Rwy'n hynod ddiolchgar i fod yn rhan o dîm mor wych sy'n poeni'n fawr am y gwaith rydyn ni'n ei wneud. Fe gollodd ein tîm ffrind a chydweithiwr gwych eleni. Byddaf yn ddiolchgar bob amser am y cyfeillgarwch a'r doethineb a rannodd Sam Jenkins gyda mi.

Wrth i ni edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf, gwyddom, er gwaethaf anawsterau'r pandemig, ei bod hefyd yn amser i obaith ac yn gyfle i newid sut rydym yn gwneud pethau i sicrhau y gall Cymru fod y wlad orau yn y byd i bobl ag anabledd dysgu fyw, dysgu a gweithio ynddi.

# Teyrnged i Sam Jenkins



Bu farw ein cydweithiwr a'n ffrind Sam Jenkins ar 1 Rhagfyr 2020. Fe fydd ei holl gydweithwyr a'i ffrindiau o Anabledd Dysgu Cymru yn colli Sam am y cyfan a roddodd inni dros y blynyddoedd.

Dechreuodd Sam weithio yn Anabledd Dysgu Cymru dros 13 mlynedd yn ôl a sefydlodd ei hun yn gyflym fel aelod cryf a dibynadwy o'r tîm. Roedd yn falch iawn o fod yn rhan o dîm Anabledd Dysgu Cymru, bob amser yn fodlon cefnogi'r corff a'i chydweithwyr lle bynnag y gallai. Un o uchafbwyntiau ein blwyddyn waith, ac un o uchafbwyntiau Sam, oedd ein cynhadledd flynyddol lle byddem i gyd yn gwisgo ein crysau-t coch a bod gyda'n gilydd fel tîm.

Roedd Sam yn fwy na chydweithiwr inni fodd bynnag, i nifer daeth yn ffrind da oedd yn ein hatgoffa  ni i gyd bod cwpaned o de a sgwrs weithiau yn rhan bwysicaf y dydd.

Mae gan bob un ohonom nifer o atgofion am synnwyr digrifwch a hwyl Sam, sut roedd wrth ei bodd yn sgwrsio a rhannu atgofion am bethau roedden ni wedi eu gwneud gyda'n gilydd. Doedd parti gwaith fyth yr un fath os nad oedd Sam yn gallu dod a gellid dibynnu arni bob amser i fod â'r siwmper Nadolig orau yn ein cinio Nadolig.

Roedd Sam yn berson penderfynol a gwydn iawn. Am gryn dipyn o'i bwyd bu'n rhaid i Sam wthio i sefydlu ei hannibyniaeth ac i gael ei chlywed, ac mae'r rhai oedd yn ei hadnabod yn gallu gweld bod ei phenderfyniad a'i gwytnwch wedi bod o fudd iddi.

Roedd Sam hefyd yn hunaneiriolydd ymroddedig dros hawliau pobl gydag anabledd dysgu. Roedd yn bwysig iddi bod ei phrofiad a'i meddyliau yn gallu cael eu defnyddio i wneud bywyd yn well i'r holl bobl gydag anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod y cyfnod clo roedd Sam yn teimlo'r boen o gael ei gwahanu oddi wrth ei hanwyliaid a phatrymau bywyd cyffredin, fel y gweddill ohonom. Ond wnaeth hi ddim derbyn hyn yn dawel. Roedd Sam yn benderfynol o gadw mewn cysylltiad, a hi oedd yr un oedd yn sicrhau bod ei chydweithwyr yn cadw mewn cysylltiad ac yn siarad, nid yn unig am waith ond hefyd am y llawenydd a'r cysur o siarad gyda ffrindiau, rhannu chwerthiniad, siarad am broblemau a chofio beth sydd yn bwysig mewn bywyd.

Rydym yn meddwl am fam Sam, Margaret a'i theulu a'i chariad Nathan, ynghyd â'r llu o bobl ym mywyd Sam y rhoddodd gymaint o hapusrwydd iddyn nhw.

Fe fydd pob un ohonom yn Anabledd Dysgu Cymru yn colli Sam am byth ac ni fyddwn yn anghofio'r cyfan a roddodd ac a ddysgodd inni: ffyddlondeb, chwerthin, penderfyniad, cyfeillgarwch a grym menyw gref.

# Ymateb i'r pandemig

## Eich hysbysu a chadw mewn cysylltiad

Ym mis Mawrth 2020 fe wnaeth Anabledd Dysgu Cymru addasu'n gyflym i anghenion y pandemig drwy newid ein holl waith yn ganolfan gyfathrebu a gwybodaeth hawdd ei deall. Heb fawr o ddealltwriaeth y cyhoedd o'r pandemig ar gael ar y pryd, a llawer o wybodaeth anghywir yn cael ei lledaenu, buom yn gweithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Consortiwm Anabledd Dysgu i sicrhau bod gwybodaeth bwysig ar gael yn gyflym i bobl ag anabledd dysgu.

Cytunwyd i gynnal tudalen adnoddau bwrpasol ar ein gwefan, ei diweddaru'n ddyddiol a chynnig amrywiaeth eang o wybodaeth am coronafeirws a'r pandemig – gan gynnwys ymchwil ac adroddiadau manwl, canllawiau hawdd eu deall, cyngor am ofalu am ein lles, ac awgrymiadau ar gyfer cadw mewn cysylltiad ar-lein. Mae'n ddarn sylweddol o waith i gadw'r wybodaeth yn gyfoes ac yn berthnasol. Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 ymwelwyd â'r adran adnoddau coronafeirws 16,493 o weithiau.

Drwy gydol y flwyddyn defnyddiwyd ein gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol, gwefan ac e-newyddion i adrodd ar ddatblygiadau sylweddol sy'n gysylltiedig â'r pandemig. Roedd y rhain yn cynnwys materion pwysig fel penderfyniadau 'Peidiwch â Cheisio CPR' (DNACPR), ymweliadau â chartrefi gofal a byw â chymorth ar ôl i gyfyngiadau symud gael eu codi, a mynediad â blaenoriaeth i'r brechlyn Covid-19. Cyhoeddwyd sawl erthygl esboniadol hefyd ar ein gwefan yn dilyn trafodaethau gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru.




Gallwch ymweld â'n tudalen adnoddau coronafeirws yn **www.ldw.org.uk/cy/project/coronafeirws**



Hawdd ei Ddeall

Sut i ddefnyddio Zoom

Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut i ddefnyddio Zoom i ymuno â chyfarfod ar eich ffôn clyfar, llechen neu gyfrifiadur.

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Anabledd Dysgu Cymru.**

**26 Mawrth 2020**

## Ymateb i'r pandemig

# Hawdd Ei Ddeall Cymru

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

**Ar ddechrau'r flwyddyn roedd ein tîm hawdd ei ddeall eisoes wedi symud ein ffocws i gefnogi Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan sicrhau bod y canllawiau a'r wybodaeth a oedd yn newid yn gyflym am y pandemig yn hygyrch ac yn gyfoes.**

Drwy gydol y flwyddyn, fe wnaethom gynhyrchu gwybodaeth hawdd ei deall am y pandemig yn wythnosol, gan gynnwys gwybodaeth am: reolau'r cyfnod clo a chadw pellter cymdeithasol; gwarchod; sgrinio; ymweld â ffrindiau a theulu mewn ysbytai, cartrefi gofal a byw â chymorth; brechlynnau.

**Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021 cynhyrchodd ein tîm hawdd ei ddeall dros 120 o ddogfennau hawdd eu deall ar gyfer 35 o gleientiaid gwahanol**

Fe wnaethom hefyd gefnogi sefydliadau eraill wrth iddynt addasu eu gwaith mewn ymateb i'r pandemig, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned, Mencap Cymru, a Gweithredu ar Anabledd.

Ochr yn ochr â gwaith sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r pandemig, fe wnaethom ddarn mawr o waith gydag Awtistiaeth Cymru yn darparu cyfres o wybodaeth hawdd ei deall i rieni a gofalwyr plant awtistig. Fe wnaethom hefyd gefnogi llawer o sefydliadau wrth iddynt ddod o hyd i'w




ffordd yn ôl i ffrydiau gwaith mwy rheolaidd, megis Gofalwyr Cymru, y Comisiwn Ffiniau i Gymru, Gyrfa Cymru a maniffestos pleidiau ar gyfer Etholiad y Senedd ar gyfer Llafur Cymru a Phlaid Cymru.

Mewn blwyddyn a oedd eisoes yn eithriadol o brysur ac anodd, roeddem yn wynebu'r her ychwanegol o ailstrwythuro'n gyfan gwbl y tîm hawdd ei ddeall. Ymunodd dau aelod newydd o staff rhan-amser â'r tîm ym mis Ebrill, Inacia Rodrigues a Julie Jones, a chymerodd Laura Griffiths yr awenau i redeg y gwasanaeth pan symudodd ein rheolwr hirsefydlog, Karen Warner, i rôl newydd o fewn Anabledd Dysgu Cymru. Bu Karen yn rheoli'r gwasanaeth am dros 10 mlynedd ac mae wedi helpu i sefydlu'r gwasanaeth sydd gennym heddiw.

# Dylanwadu ar bolisi




## Consortiwm Anabledd Dysgu

Yn ystod y pandemig, fe wnaethom chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gadeirio’r Consortiwm Anabledd Dysgu a chreu llwyfan ar gyfer trafod a gweithredu gyda Llywodraeth Cymru, y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Dechreuodd y Consortiwm gyfarfod yn wythnosol o ddechrau’r pandemig, gan newid yn ddiweddarach i gyfarfodydd bob pythefnos. Yn ystod y flwyddyn ehangwyd y grŵp i gynnwys Cymorth Cymru a Chymdeithas Syndrom Down Cymru.

Cydweithiodd y grŵp ar eitemau gan gynnwys gwarchod, brechlynnau, ymweld, llais a rheolaeth, a hysbysiadau ‘Peidiwch â Cheisio CPR’ (DNACPR) a chyfarfu’n rheolaidd ag arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Ym mis Rhagfyr, anfonodd y Consortiwm lythyr ar y cyd at reolwyr gofal ledled Cymru yn hyrwyddo defnydd da o Ganllawiau Byw â Chymorth Llywodraeth Cymru. Roedd hyn i sicrhau bod pobl ag anabledd dysgu yn cael gweld teulu a ffrindiau yn ddiogel, a mynd allan yn yr un modd ag y gallai’r boblogaeth gyffredinol, yn dilyn llacio’r cyfyngiadau symud.

## Grŵp Cynghori Gweinidogol Anabledd Dysgu

Parhawyd i gynrychioli ein haelodau a’n rhanddeiliaid mewn 5 cyfarfod o Grŵp Cynghori’r Gweinidog ar Anabledd Dysgu drwy gydol y flwyddyn. Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys adolygu’r rhaglen Gwella Bywydau a thrafod blaenoriaethau’r Dyfodol gyda’r Dirprwy Weinidog dros Ofal Cymdeithasol.

## Grŵp Cyfeirio Anabledd Cymru

Mae Grŵp Cyfeirio Anabledd Cymru yn gosod yr agenda ar gyfer cyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd ac mae’n cynnwys Anabledd Dysgu Cymru, Anabledd Cymru, Cyngor Cymru i’r Deillion a Chyngor Pobl Fyddar Cymru. Rydym yn dal ysgrifenyddiaeth y grŵp.

Ym mis Ebrill rhannodd y Grŵp ddatganiad ar y cyd ar coronafeirws a hawliau pobl anabl yng Nghymru, gan ofyn i’r cyhoedd ymrwymo i gyfres o egwyddorion. Llofnododd dros 1400 o



unigolion a sefydliadau y datganiad. Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy roi nifer o gamau gweithredu ar waith, gan gynnwys: cyhoeddi canllawiau ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd wrth wneud penderfyniadau yn ystod y pandemig; a llythyr gan y Prif Swyddog Meddygol a'r Prif Swyddog Nyrsio at gyfarwyddwyr a phrif weithredwyr GIG Cymru, gan geisio sicrhau "eglurder ynghylch gwneud penderfyniadau moesegol i bobl ag unrhyw nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010" yn ystod y pandemig, gan gynnwys penderfyniadau 'Peidiwch â Cheisio CPR' (DNACPR).

## Cyfarfodydd polisi Covid-19

Rhoddodd cyfarfodydd wythnosol gydag arweinwyr polisi gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru lwybr hanfodol i ni i'r timau sy'n gwneud penderfyniadau pwysig i bobl ag anabledd dysgu a'r rhai sy'n eu cefnogi. Mae hyn wedi ein galluogi i ddylanwadu ar bolisi a gweithdrefnau drwy gydol y pandemig sy'n effeithio ar fywydau pobl ag anabledd dysgu.

## Fforwm Cydraddoldeb Anabledd Llywodraeth Cymru

Wedi'i gynnal gan Jane Hutt, y Gweinidog sy'n gyfrifol am gydraddoldeb, roedd y cyfarfodydd hyn yn caniatáu i ni godi materion brys, gan gynnwys gwarchod, gwybodaeth hygyrch ac arfer gwahaniaethol yn ystod y pandemig. Yn ystod y flwyddyn, cynhyrchodd y grŵp yr adroddiad 'Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19', a ysgrifennwyd gan yr Athro Debbie Foster ac a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021. Datgelodd y darn pwysig hwn o waith sut mae'r pandemig wedi amlygu anghydraddoldebau i bobl anabl yng Nghymru.

## Cyfarfodydd gwybodaeth hygyrch Llywodraeth Cymru

Wedi'i greu fel rhan o Fforwm Cydraddoldeb Anabledd Llywodraeth Cymru, galluogodd y grŵp hwn i ni weithio gyda thîm cyfathrebu Llywodraeth Cymru i sicrhau bod dogfennau pwysig yn hygyrch.

## Grŵp Polisi Anabledd Dysgu

Dan arweiniad ein tîm polisi a chyfathrebu, ynghyd ag aelodau o'r Consortiwm Anabledd Dysgu a sefydliadau eraill sydd â diddordeb mewn polisi anabledd dysgu, mae'r grŵp hwn yn ein galluogi i gysylltu'n agos â'n haelodau a chael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw faterion y maent yn eu hwynebu.

# Dylanwadu ar bolisi (parhad)




## Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol

Rydym wedi bod yn gweithio gydag aelodau Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector i sicrhau, pan gaiff y system newydd ei lansio ym mis Medi 2021, y bydd yn cefnogi plant a phobl ifanc yn eu haddysg. Rydym wedi bwydo'r holl ddysgu o'r prosiect Engage to Change i'r diwygiad.

## Gwaith polisi arwyddocaol arall

- **Lobïo:** Fe wnaethom gyfrannu at lythyr ar y cyd gan Gynghrair Gofalwyr Cymru at Lywodraeth Cymru am effaith y pandemig ar ofalwyr di-dâl
- **Ymchwil:** Yng ngoleuni tystiolaeth bryderus o'r adolygiad o farwolaethau Covid yn Lloegr, fe wnaethom bwyso ar Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddarparu data am y sefyllfa yng Nghymru.
- **Uwch Swyddog Polisi ac Ymchwil:** Crëwyd swydd newydd dros dro i weithio ar bolisi ac ymchwil sy'n benodol i Covid am 12 mis o ddiwedd mis Mawrth 2021.
- **Hysbysu:** Crëwyd adran newydd ar ein gwefan oedd yn dod â'n holl waith polisi at ei gilydd mewn un lle a lansiwyd rhestr bostio newydd ar gyfer pobl sydd â diddordeb yn ein gwaith polisi: **www.ldw.org.uk/cy/project/policy/**

## Ymgynghoriadau

Fe wnaethom ymateb i ymgynghoriadau ar feysydd gan gynnwys Plant, Pobl Ifanc, Addysg a Goblygiadau COVID-19; Mynediad i Waith; Niwroamrywiaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol; Lwfans Myfyrwyr Anabl; Cod Ymarfer drafft ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth; Trafnidiaeth; Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio.



## Brechlyn COVID-19

**Ymgyrch grwpiau blaenoriaeth brechu**

Gan weithio gyda'n partneriaid yn y Consortiwm Anabledd Dysgu, fe wnaethom lobïo i bobl ag anabledd dysgu gael blaenoriaeth ar gyfer y brechlyn Covid-19. Lansiodd y Consortiwm e-ymgyrch a welodd 550 o gefnogwyr yn anfon 3,000 o negeseuon e-bost at Aelodau'r Senedd. Cafodd pobl ag anabledd dysgu eu cynnwys wedyn yng ngrŵp blaenoriaeth 6.

**Grŵp Brechu Teg**

Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y brechlyn yn hygyrch i bawb drwy gynghori ar wybodaeth hygyrch am y brechlyn a'i weinyddiaeth.

## Astudiaeth coronafeirws a phobl ag anableddau dysgu

Ym mis Hydref fe wnaethom ymuno â'r astudiaeth fwyaf yn y DU o sut mae'r pandemig wedi effeithio ar bobl ag anabledd dysgu. Gan weithio'n agos gyda Phobl yn Gyntaf Cymru Gyfan, Fforwm Cymru Gyfan ar gyfer Rhieni a Gofalwyr, Prifysgol De Cymru, a Phrifysgol Caerdydd, fe wnaethom recriwtio 150 o bobl ag anabledd dysgu yng Nghymru a gafodd eu cyfweld (y cyntaf o dri chyfweliad) am eu bywydau yn ystod y pandemig. Fe wnaethom hefyd recriwtio gweithwyr cymorth lle na allai pobl gymryd rhan eu hunain.

Gellid darganfod mwy am yr astudiaeth yn **www.ldw.org.uk/cy/project/covid19-study/**

# Engage to Change

engagetochange.org.uk
/engagetochangewales
@Engage_2_Change




**“Mae’r swydd hon wedi cael effaith fawr ar fy mywyd. Yr adeg hon y llynedd, ni fyddwn erioed wedi dyfalu y byddwn yn gweithio fel cynorthwyydd gofal iechyd yn fy ysbyty lleol. Rwyf mor falch fy mod yn mynd i weithio yn gwisgo fy sgrybs a gofalu am gleifion yn ystod yr amser ofnadwy hwn. Mae’r swydd yn rhoi llawer o foddhad ac rydw i’n mwynhau pob eiliad ohoni.”**

**Elenid Williams**

Parhaodd Engage to Change i dderbyn atgyfeiriadau a chyflwyno gweithgarwch drwy gydol pumed flwyddyn y prosiect, gyda phartneriaid a phobl ifanc yn addasu i weithio o bell a dysgu sgiliau newydd drwy ddefnyddio llwyfannau digidol.


Dewisodd rhai cyfranogwyr a gyflogir mewn rolau gweithwyr allweddol barhau i weithio. Fe wnaeth y rhan fwyaf o’r rhai nad oedd eto wedi symud ymlaen i gyflogaeth â thâl fynychu clybiau swyddi digidol a chymryd rhan mewn amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi achrededig a addaswyd i ystyried darparu, cwblhau ac asesu o bell. Cefnogwyd pobl ifanc i gael gafael ar offer a rhwydweithiau TG angenrheidiol. Datblygodd Elite ac Agoriad, y partneriaid cyflenwi cyflogaeth â chymorth, gwrs achrededig newydd o’r enw ‘Hyrwyddo Ymarfer Diogel gyda Covid 19 a Chlefydau Heintus Eraill’, a gynlluniwyd i bobl ifanc a staff gadw’n ddiogel wrth deithio ac yn y gwaith.

**“Rwyf wedi dysgu llawer o sgiliau newydd o fy swydd fel sut i weithio gyda phobl. Mae wedi gwella fy sgiliau cyfathrebu, sut i ddefnyddio gwahanol offer a chynhyrchion glanhau, sut i reoli fy llwyth gwaith fy hun yn annibynnol ac yn bwysicaf oll sut i barhau i weithio’n ddiogel yn ystod y pandemig Covid19.”**



**Alex Jones**

## Rhys Harris – astudiaeth achos



Er bod y pandemig wedi effeithio ar lawer o leoliadau gwaith Engage to Change, mae hefyd wedi gweld cyfranogwyr yn y gorffennol a'r presennol yn dod yn weithwyr rheng flaen hanfodol. Un enghraifft yw Rhys Harris, a aeth o fyfyriwr coleg i weithiwr GIG rheng flaen hanfodol o fewn dwy flynedd.

Dechreuodd Rhys ei interniaeth SEARCH Prosiect Engage to Change DFN yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr ym mis Medi 2018. Yn ystod ei leoliad cyntaf, ymunodd Rhys ag Adran Fferylliaeth yr ysbyty lle enillodd hyder a dysgu sgiliau newydd.

Roedd lleoliad Rhys yn y fferyllfa mor llwyddiannus nes iddo benderfynu aros yn yr un rôl ar gyfer ei ddau leoliad nesaf. Ar ôl iddo raddio o'r interniaeth, ac oherwydd ei frwdfrydedd a'i gefnogaeth gan yr adran, fe wnaeth Rhys barhau i weithio yn y fferyllfa yn wirfoddol nes i swydd wag ar gyfer Cynorthwyydd Fferylliaeth llawn amser ddod ar gael. Cefnogwyd Rhys gan y prosiect a chafodd ei gyfweld yn llwyddiannus ar gyfer y rôl.

Gan weithio drwy'r pandemig fel Cynorthwyydd Fferyllfa, mae Rhys wedi bod yn hanfodol i sicrhau bod cleifion yn yr ysbyty yn derbyn eu presgripsiynau a sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu stocio gan y wardiau. Er bod Rhys yn cyfaddef ei bod yn heriol gweithio yn yr ysbyty yn ystod y pandemig, mae hefyd yn falch o'r gwaith hanfodol y llwyddodd i'w wneud i gefnogi'r GIG ac mae'n edrych ymlaen at symud ymlaen yn ei rôl.

Roedd ffocws ar gadw mewn cysylltiad a darparu cymorth a chyngor lles i bobl ifanc. Darparwyd cymorth ychwanegol i bobl ifanc a chyflogwyr ar ffyrlo, diswyddo, dychwelyd i'r gwaith a budd-daliadau lles.

Yn ystod cyfnodau pan godwyd cyfyngiadau, cafodd cymorth wyneb yn wyneb ei gynyddu yn raddol, gyda lleoliadau gwaith a swyddi newydd yn cael eu gwneud gan y bobl ifanc hynny a oedd yn dymuno gwneud hynny.

Llwyddodd y prosiect i gynnal 3 digwyddiad rhithwir drwy gydol y flwyddyn gyda rhai pobl ifanc yn cyflwyno'n fyw ac eraill yn rhannu eu profiadau drwy fideos wedi'u recordio ymlaen llaw.

Chwaraeodd effaith y pandemig ran yn y ffaith bod y prosiect wedi ennill estyniad o 18 mis a chyllid ychwanegol i ddiwygio gweithgarwch a pharhau i gefnogi'r bobl ifanc hynny yr effeithiwyd arnynt fwyaf a'r pellaf o'r farchnad swyddi.

# Gwaith polisi cyflogaeth gan Engage to Change




Rydym wedi dysgu drwy'r prosiect bod angen newidiadau sylweddol ledled Cymru os gallwn gynnal, heb sôn am godi, nifer y bobl ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth mewn cyflogaeth.

Ein dyhead yw, erbyn blwyddyn 7 y prosiect Engage to Change, y bydd cynllun Hyfforddi Swyddi Cenedlaethol a fydd yn plethu mentrau cyflogaeth eraill ac yn sbardun i gynyddu mynediad i'r farchnad lafur i bobl ag anabledd dysgu.

Cynhyrchwyd dau bapur briffio a ddosbarthwyd yn eang yn ystod y flwyddyn i bobl allweddol yn y sector. Roedd y sesiynau briffio yn cwmpasu'r angen am raglen Genedlaethol Hyfforddi Swyddi ac Interniaeth â Chymorth, a rôl y GIG a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus o ran darparu swyddi i bobl ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth yng Nghymru.

Cawsom wahoddiad i fod yn aelodau o Weithgor Cyflogaeth Pobl Anabl Llywodraeth Cymru, gan ein galluogi i gwrdd â'r Pennaeth Polisi Cyflogaeth sy'n arwain ar gynllun peilot prentisiaeth â chymorth. Fel rhan o'r grŵp hwn, fe wnaethom hefyd gyfrannu at ddatblygu 'Cymru Fwy Cyfartal', canllaw ymarferol i gyflogwyr gyflogi pobl anabl, a sefydlu rhwydwaith o Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl i roi cyngor, gwybodaeth a chymorth i gyflogwyr ledled Cymru.

## Ymateb i'r pandemig

# Hyfforddiant a digwyddiadau




**"Cafodd pethau eu hesbonio a'u cyfleu'n effeithiol, a gadewais y sesiwn yn teimlo'n hyderus am gynhyrchu cyfathrebiadau hawdd eu deall i'n cynulleidfaoedd. Diolch!"**

Ar ddechrau'r cyfnod clo cyntaf, yn anffodus bu'n rhaid i ni ganslo ein rhaglen o hyfforddiant a digwyddiadau a oedd wedi'u cynllunio a'u bwcio ar gyfer ein hystafell hyfforddi. Roedd rhaid i ni hefyd newid yn sylweddol ein cynlluniau ar gyfer cynnal ein cynhadledd flynyddol.

O weld faint o wybodaeth sy'n newid yn gyflym sy'n cael ei hanfon at bobl ag anabledd dysgu am reolau Covid-19 a newidiadau i wasanaethau cymorth, roeddem am sicrhau bod gan bobl a sefydliadau'r sgiliau i ddarparu gwybodaeth fwy hygyrch.

Fe wnaethom ymateb yn gyflym i'r anghenion hyn drwy addasu ein hyfforddiant 'Gwneud Gwybodaeth yn Hawdd i'w Darllen a'i Deall' yn gyflym i fersiwn ar-lein a'i gynnig yn rhad ac am ddim. Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd 22 o gyrsiau ar-lein rhad ac am ddim, gan helpu 291 o gynrychiolwyr i ddysgu sut i gynhyrchu gwybodaeth hawdd ei deall.

Fe wnaethom hefyd ymuno â Chymunedau Digidol Cymru i gynnal hyfforddiant ar-lein rhad ac am ddim ar sut i gefnogi pobl i gyfathrebu ar-lein. O brofiad personol ac o'n Cymuned Ymarfer Technoleg Bersonol, fe wnaethom ddysgu bod llawer o bobl ag anabledd dysgu wedi'u hynysu a'u hallgáu'n ddigidol yn ystod y cyfnod clo. Fe wnaeth yr hyfforddiant hwn helpu 117 o bobl i gefnogi eraill i gadw mewn cysylltiad a chyfathrebu gan ddefnyddio technoleg ddigidol.

## Digwyddiadau Cyngor ar Bopeth

Buom yn gweithio gyda Chyngor ar Bopeth Cymru i gynnal digwyddiadau ar-lein rhad ac am ddim a oedd yn hyrwyddo eu gwasanaeth Advicelink Cymru. Amlygodd y digwyddiadau sut y gall y cymorth hwn helpu pobl gyda'u budd-daliadau lles, a gyda phroblemau eraill fel dyled, problemau tai a materion swyddi.

# Hyfforddiant a digwyddiadau (parhad)

## Cynhadledd flynyddol: Pawb

Archwiliodd ein Cynhadledd Flynyddol ‘Pawb’ unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol, gan dynnu sylw at sut mae pobl ag anabledd dysgu yn cael eu heffeithio gan y materion hyn ac arddangos yr hyn sy’n cael ei wneud i wella hyn yng Nghymru.

Dros bythefnos cynhaliwyd 25 o ddigwyddiadau ar-lein ar wahân gyda 741 o fynychwyr yn ymuno â sgyrsiau, ffilmiau a gweithdai ar bynciau gan gynnwys cynnwys: cynnal bore coffi cymunedol, theatr fforwm, radio cymunedol, rhyw a pherthnasoedd, hunan-eiriolaeth ddigidol yn ystod y pandemig, Ffrindiau Gigiau, a Chynllun Llywodraeth Cymru ar Unigrwydd ac Unigedd Cymdeithasol.








# Ymateb i'r pandemig

# Gofalu am les ein staff




Mae wedi bod yn flwyddyn anarferol iawn ac i'r rhan fwyaf o'r tîm mae wedi bod yn flwyddyn wedi'i threulio yn gweithio gartref. Gall hyn fod yn unig ac yn anodd iawn ar adegau, ac rydym wedi sicrhau bod ein timau'n cael cyfle i gyfarfod bob bore am seibiant coffi ar-lein er mwyn sgwrsio am bethau o ddydd i ddydd.

Roeddem hefyd yn teimlo bod angen gwneud rhywbeth gyda'n gilydd, hyd yn oed os na allai fod yn bersonol. Gosodwyd her i ni'n hunain o gerdded yr hyn sy'n cyfateb i Lwybr Arfordir Cymru rhyngom, gyda'r tîm cyfan yn cymryd awr allan o waith bob dydd Mercher i wneud hyn, a chawsom amser gwych yn ei wneud! Fe wnaethom hefyd sicrhau ein bod yn cadw mewn cysylltiad a gofyn cwestiynau am sut mae'r pandemig wedi effeithio arnom, er mwyn gallu cefnogi pawb drwy wneud newidiadau i'r ffordd rydym yn gweithio.




Llun o walescoastalpath.gov.uk

# Ffrindiau Gigiau Cymru



Gan fod Ffrindiau Gigiau yn ymwneud â chyfeillgarwch, cymdeithasu a mwynhau profiadau newydd, roedd y pandemig yn ei gwneud hi'n anodd iawn i bobl fynd allan i gwrdd â'u Ffrind, gan gyfrannu felly at ymdeimlad pobl o unigrwydd ac arwahanrwydd. Buom yn gweithio'n galed i addasu drwy sefydlu cyfleoedd yn gyflym i bobl gyfathrebu a chymdeithasu ar-lein. Fe wnaethom helpu Ffrindiau i fynd ar-lein a gwneud canllaw hawdd ei ddeall i ddefnyddio Zoom.

Ar ôl cael ei orfodi i ganslo holl gyfarfodydd Ffrindiau Gigiau a chymdeithasau cymdeithasol wyneb yn wyneb, fe wnaeth Ffrindiau Gigiau gyfarfod ar Zoom yn ystod wythnos gyntaf y cyfnod clo i gynllunio sut beth fyddai rhith-gymdeithasol. Awgrymodd Simon y gallem chwarae cwis cerddoriaeth yr oedd yn berchen arno lle'r oedd yn rhaid i chwaraewyr ddyfalu pa gân oedd yn cael ei chwarae ar kazoo. Y canlyniad oedd 'Kazoom', ein digwyddiad rhith-gymdeithasol newydd yn hwyr yn y nos.

Wedi'i gynnal a'i gynllunio gan Ffrindiau Gigiau eu hunain, roedd 'Kazoom' yn cynnwys cwisiau, caraoce a sioeau talent. Rhaid diolch yn fawr iawn i un o'n gwirfoddolwyr Gareth, perfformiwr drag proffesiynol, a gyd-gynhaliodd bob wythnos mewn cymeriad fel 'Ernie Sparkles'. Ar ôl ychydig wythnosau, ychwanegwyd te parti prynhawn at galendrau cymdeithasol pobl, ac erbyn diwedd y flwyddyn roeddem wedi cynnal bron i 100 awr o gymdeithasu rhithwir.

Arhosodd parau Ffrindiau Gigiau mewn cysylltiad drwy gyfarfod ar gyfer eu gweithgareddau rhithwir eu hunain, gan gynnwys digwyddiadau ar-lein, cwisiau a sgyrsiau. Fe wnaethom gefnogi hyn drwy

> **"Rwy'n hoffi mynd i ddigwyddiadau Ffrindiau Gigiau oherwydd mae'n rhoi cyfle i mi gwrdd â gwahanol bobl a gwneud ffrindiau newydd."**
>
> **Shahid Afsar**

> **"Nid yw gwirfoddoli fel Ffrind Gig ddim yn teimlo fel gwirfoddoli o gwbl. Mae fel cael ffrind newydd"**
>
> **Gareth Pahl**

roi gwybod i Ffrindiau am y gweithgareddau a'r digwyddiadau creadigol niferus a oedd ar gael ar-lein yn ystod y pandemig.

O ganlyniad i'r rhith-gymdeithasu a pharau Ffrindiau Gigiau yn cadw mewn cysylltiad ar-lein, mae pobl wedi gwella eu sgiliau digidol a'u hyder ac yn dechrau cynnal eu digwyddiadau ar-lein eu hunain. Roedd Ffrindiau Gigiau hefyd yn cysylltu â phobl o brosiectau Ffrindiau Gigiau eraill, gyda chymorth dwy barti ar-lein fyd-eang enfawr - 'All in One Day' a pharti Nadolig - a oedd yn cynnwys prosiectau o bob rhan o'r DU, a hyd yn oed Ffrindiau Gigiau Sydney.

Fe wnaethom hefyd gynnal sesiynau Facebook Live wythnosol lle gallai pobl ryngweithio â Ffrindiau Gigiau a dysgu mwy am y prosiect, ac adeiladu perthnasau newydd, gan gydweithio ar ddigwyddiadau ar-lein gydag Electric Umbrella ac Innovate Trust's Insight App.

Yn ystod y pandemig, symudwyd ein ffocws i gadw ein Ffrindiau Gigiau presennol mewn cysylltiad. Roedd yn anoddach recriwtio gwirfoddolwyr gan ein bod fel arfer yn recriwtio mewn gwyliau, gigs a digwyddiadau, ac roedd llai o bobl yn chwilio am y math hwn o gyfle gwirfoddoli.

Wrth i rai cyfyngiadau pandemig lacio ym mis Gorffennaf 2020, dechreuodd rhai Ffrindiau Gigiau gyfarfod am deithiau cerdded awyr agored neu ymweld â chaffis a gerddi tafarn, ond hyd yn oed ar ôl i'r gwarchod ddod i ben ar 16 Awst nid oedd rhai Ffrindiau Gigiau yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus i fynd allan i gymdeithasu. Cafodd y broses o gyflwyno'r brechlyn yn gynnar yn 2021 effaith gadarnhaol ar hyn ac erbyn mis Mawrth 2021 roedd parau Ffrindiau Gigiau yn gallu dechrau gwneud cynlluniau i weld ei gilydd eto.

Gallwch weld ein huchafbwyntiau o'r flwyddyn yn y fideo hwn a wnaethom yn ystod y cyfnod clo: **https://youtu.be/OGWg8dx7Gd0**.


## Ffrindiau Gigiau Gogledd Cymru

Roeddem yn falch iawn o lansio Ffrindiau Gigiau yng Ngogledd Cymru diolch i gyllid gan Raglen Trawsnewid Gogledd Cymru a Chymdeithas Tai Dewis Cyntaf. Penodwyd dau Gydlynydd Prosiect rhan-amser, Heather Graham a Rachel Somerville. Roedd y lansiad yn ddigwyddiad ar-lein hwyliog gyda llif byw, cerddoriaeth, sgwrsio a pharti Kazoom arbennig.

Sefydlwyd grŵp llywio i helpu i ddatblygu'r prosiect gyda phobl a sefydliadau yng Ngogledd Cymru. Rhoddwyd gwaith i rwydweithio, marchnata a recriwtio cyfranogwyr a gwirfoddolwyr.



# Ffrindiau Gigiau Cymru (parhad)




## Ffrindiau Gigiau yn cefnogi ei gilydd

Buom yn holi Ffrindiau Gigiau dros y ffôn, yn enwedig cyfeillion nad oeddent yn ddigidol weithgar, ac fe wnaethom sefydlu cylchlythyr e-bost gyda digwyddiadau'n digwydd ar-lein ac awgrymiadau ar gyfer cadw mewn cysylltiad, yn ogystal â'n digwyddiadau ein hunain.

Ym mis Gorffennaf cynhaliwyd sesiwn gymorth i wirfoddolwyr, wrth i ni addasu ein hyfforddiant i wirfoddolwyr a chyflwyno 5 sesiwn hyfforddi ar Zoom. Cafodd ein tîm Ffrindiau Gigiau gymorth amhrisiadwy drwy gydol y flwyddyn mewn cyfarfodydd partner prosiect rheolaidd, lle daeth pob prosiect Ffrindiau Gigiau at ei gilydd i rannu arfer da ac i gefnogi ei gilydd.





# Ein staff

## Cyfathrebu

Kai Jones
Swyddog Cyfathrebu

Cath Lewis
Uwch Swyddog Polisi ac Ymchwil
(o fis Mawrth 2020)

Karen Warner
Rheolwr Cyfathrebu

## Hyfforddiant a Digwyddiadau

Simon Rose
Rheolwr Rhwydweithiau a Digwyddiadau

Inacia Rodrigues
Cydlynydd Rhwydweithiau a Digwyddiadau

## Hawdd ei Ddeall Cymru

Laura Griffiths
Uwch Swyddog Gwybodaeth Hygyrch

Julie Jones
Swyddog Gwybodaeth Hygyrch
(o fis Ebrill 2020)

Inacia Rodrigues
Swyddog Gwybodaeth Hygyrch

Zoe Richards
Prif Weithredwr

## Engage to Change

Angela Kenvyn
Rheolwr Engage to Change

Samantha Williams
Swyddog Cyfathrebu Engage to Change

Grace Krause
Swyddog Polisi

## Adnoddau Dynol a Chyllid

Zhanar Tabeyeva
Uwch Swyddog Cyllid

Ian Cullimore
Swyddog Cyllid

Joanne Moore
Rheolwr AD a Llywodraethu

## Prosiectau

Lyndsey Richards
Rheolwr Prosiectau
(tan fis Ionawr 2020)

Kylie Smith
Cydlynydd Prosiect Ffrindiau Gigiau De Cymru

Kai Jones
Cydlynydd Prosiect Ffrindiau Gigiau De Cymru

Heather Graham
Cydlynydd Prosiect Ffrindiau Gigiau Gogledd Cymru (o fis Hydref 2020)

Rachel Somerville
Cydlynydd Prosiect Ffrindiau Gigiau Gogledd Cymru
(o fis Hydref 2020)

## Tîm Cefnogi

Cheryl White
Gweinyddwr
(tan fis Mawrth 2021)

Taylor Florence
Cynorthwy-ydd Gweinyddol

Rhobat Bryn Jones
Gweinyddwr

Sam Jenkins
Glanhawr
(tan fis Rhagfyr 2020)

# Pobl yr 21ain Ganrif

Pobl yr 21ain Ganrif

**Yn y Gymru fodern heddiw dylai pobl ag anabledd dysgu allu byw bywydau modern. Ym mis Ebrill fe wnaethom lansio ein prosiect Pobl yr 21ain Ganrif, prosiect mawr 3 blynedd o hyd gyda'r nod o wneud hyn yn bosibl drwy gyd-greu dewisiadau, cyfleoedd a chefnogaeth i bobl ag anabledd dysgu.**



Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, mae Pobl yr 21ain Ganrif yn dathlu pobl ag anabledd dysgu fel creawdwyr, cyfranwyr a dinasyddion Cymru, tra'n herio stereoteipiau sy'n bodoli eisoes. Mae'r prosiect yn cyflawni gwaith ar draws 4 thema allweddol: Teuluoedd yr 21ain Ganrif; Lleisiau yr 21ain Ganrif; Pobl Iach yr 21ain Ganrif; Byw yn yr 21ain Ganrif.

Darllenwch ymlaen am yr hyn y gwnaethom ei gyflawni ar draws y themâu hyn yn ystod y flwyddyn.

## Teuluoedd yr 21ain Ganrif

### Rhieni ag anabledd dysgu

Fe wnaethom barhau i gefnogi grŵp rhieni Pobl yn Gyntaf y Fro i ddod at ei gilydd, dysgu sgiliau newydd a rhannu eu profiadau personol eu hunain.

Buom yn gweithio mewn partneriaeth â'r ymgyrch 'Rhoi'r Gorau Iddi Nawr!' i ymgynghori â grŵp rhieni'r Fro ar daflen i deuluoedd ar atal cam-drin plant yn rhywiol. Roedd hyn yn cynnwys 3 digwyddiad ymgynghori ar-lein gyda rhieni ag anableddau dysgu yn ogystal â siarad ag eraill o'r grŵp nad oeddent yn gallu bod yn bresennol. Cafodd holl sylwadau'r rhieni eu cynnwys mewn adroddiad a gyflwynwyd i arweinydd ymgyrch 'Rhoi'r Gorau iddi Nawr!' i Gymru.



Fe wnaethom gefnogi tîm yr Athro Ruth Northway ym Mhrifysgol De Cymru yn dilyn eu cais llwyddiannus i gynhyrchu canllawiau i weithwyr cymdeithasol ar gefnogi rhieni ag anabledd dysgu. Cytunwyd i helpu i recriwtio rhieni ag anabledd dysgu a hyrwyddo gwaith y prosiect i annog pobl i gymryd rhan a chodi ymwybyddiaeth o'r canllawiau newydd pan gaiff ei gyhoeddi.

### Cyrchu gwasanaethau cyhoeddus

Mewn partneriaeth â Cerebra, fe wnaethom gynnal gweithdy ar-lein rhad ac am ddim yn helpu rhieni a gofalwyr sy'n wynebu problemau wrth gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus i'r person maen nhw'n ei gefnogi. Tynnodd y gweithdy sylw at 'Becyn Cymorth Cyrchu Gwasanaethau Cyhoeddus' Cerebra ac edrychodd ar ffyrdd ymarferol y gall rhieni ddatrys problemau a chael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu gweithdai yn y dyfodol e-bostiwch **enquiries@ldw.org.uk**.

## Lleisiau'r 21ain Ganrif

### Senedd Ieuenctid Cymru

WELSH YOUTH PARLIAMENT | SENEDD IEUENCTID CYMRU
SEFYDLIAD PARTNER — PARTNER ORGANISATION

Fe wnaethom barhau i gefnogi Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru Katie ac Anwen mewn cyfarfodydd, ar-lein ac yn bersonol, ynghyd â gweithgareddau eraill, megis cyfrannu at adroddiadau pwyllgorau a chymryd rhan mewn cyfweliadau ac ymgyrchoedd.

Roedd Katie yn rhan o'r Pwyllgor Cymorth Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl a chyfrannodd at ei adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Hydref. Roedd Anwen yn aelod o'r Pwyllgor Sbwriel a Gwastraff Plastig a



chymerodd ran hefyd mewn cyfarfod gyda'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol ar effaith Covid-19 ar bobl ifanc ledled Cymru.

### Gwybodaeth hygyrch

Fe wnaethom ddarparu sesiynau hyfforddi a blasu rhad ac am ddim i sefydliadau ledled Cymru yn eu cefnogi i ddarparu gwybodaeth sy'n hawdd ei darllen a'i deall.

### Polisi a phobl: Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd

Ni yw'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y grŵp hwn sy'n gyfrifol am gynnal cyfarfodydd. Ar ddechrau'r pandemig, symudwyd yn gyflym

i gefnogi cyfarfodydd ar-lein, a sicrhau y byddent yn rhyngweithiol.

Canlyniad cadarnhaol yw bod llawer nad ydynt fel arfer yn gallu mynychu cyfarfodydd corfforol bellach yn ymuno â'r cyfarfodydd rhithwir. Ym mis Mai trafodwyd y map ffordd allan o Covid, gan gynnwys taliadau £500 i weithwyr gofal, effaith Covid-19 ar bobl ag anabledd dysgu, gwarchod a gwybodaeth hygyrch.


Ym mis Gorffennaf, trefnwyd panel pobl ar gyfer y rhai â phrofiad byw yn amlinellu'r materion yr oeddent wedi'u hwynebu drwy gydol y pandemig. Ym mis Hydref edrychwyd ar gyllidebau iechyd personol a thaliadau gofal personol, ap See Around Britain, yr alwad am Gomisiynydd Anabledd Dysgu, gwisgo mygydau, ac Asesiadau Taliadau Annibynnol Personol.

## Pobl Iach yr 21ain Ganrif

### Gwiriadau iechyd blynyddol

Er mwyn helpu i gynyddu nifer y bobl ag anabledd dysgu sy'n cael archwiliad iechyd blynyddol, rydym wedi parhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid i hyrwyddo archwiliadau iechyd blynyddol, gan gynnwys cynhyrchu adnoddau hawdd eu deall.

Codwyd pryderon gyda Llywodraeth Cymru ynghylch atal




archwiliadau iechyd yn ystod y pandemig, a gofynnwyd am sicrwydd pryd y byddent yn dychwelyd, a phryd y byddai pecynnau adnoddau hawdd eu deall ar gael.

### Lleihau arferion cyfyngol

Rydym yn aelodau o'r Gymuned Ymarfer Ymddygiad Heriol ac wedi parhau i ymwneud â gweithgareddau ar-lein y gymuned yn ystod y pandemig. Roedd pryderon yn ystod y cyfnod clo ynghylch cyfyngu ar hawliau a rhyddid pobl mewn lleoliadau gofal a chymorth yr oeddem yn eu herio ar y cyd gyda phartneriaid o'r Consortiwm Anabledd Dysgu. Fe wnaethom hefyd dynnu sylw at y materion hyn drwy ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol.

## Byw yn yr 21ain Ganrif

### Cysylltiadau Cymru

Dyma ein rhwydwaith newydd sy'n dod â phobl at ei gilydd i fynd i'r afael ag



unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol a dod o hyd i atebion creadigol i oresgyn y materion hyn. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Mawrth gyda 40 o bobl yn ymuno ar-lein i siarad am unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol yn dod allan o'r cyfnod clo, yr hyn rydym wedi'i ddysgu, a chyfleoedd newydd. Ysgrifennwyd erthygl i rannu canlyniadau'r cyfarfod: **https://bit.ly/3qeM3SP**.

Mae 130 o bobl wedi ymuno â'r rhwydwaith hyd yn hyn. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ac ymuno â'r rhwydwaith yma: **www.ldw.org.uk/cy/project/cysylltiadau-cymru/**.

## Technoleg bersonol

Mae Cymuned Ymarfer Technoleg Bersonol Cymru Gyfan yn hyrwyddo annibyniaeth, dewis a rheolaeth i bobl ag anabledd dysgu drwy ddefnyddio technoleg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Tyfodd y rhwydwaith yn ystod y cyfnod clo gan fod cyfarfodydd yn gallu cael eu cynnal ar-lein. Fe wnaethom gynnal tri chyfarfod rhwydwaith, gan edrych ar y problemau y mae pobl ag anabledd dysgu sy'n defnyddio technoleg yn eu hwynebu, yr amrywiaeth o atebion technolegol yr oedd pobl yn eu defnyddio i gadw mewn cysylltiad yn ystod y pandemig, a'r hyn sydd angen ei wneud ar ôl y pandemig.

Fe wnaethom gyhoeddi dwy erthygl yn archwilio sut roedd technoleg yn cael ei defnyddio i gadw pobl ag anabledd dysgu yn gysylltiedig yn ystod y pandemig, a'r materion a oedd yn cadw pobl wedi'u hallgáu'n ddigidol: **https://bit.ly/3CE62O5 / https://bit.ly/2ZJrnaj**.

All Wales personalised technology community of practice

# Ein hymddiriedolwyr a'n haelodau

## Ein hymddiriedolwyr

| Cymuned Fuddiant Cynrychiolwyr Aelodau Llawn | Nifer y Seddi | Ymddiriedolwyr | Yn cynrychioli |
|---|---|---|---|
| Darparwyr Oedolion | 2 | Steve Cox<br>Mandy Evans | Perthyn<br>Mirus Cymru |
| Hunan-Eiriolaeth | 2 | Michael Allcock<br><br>Dawn Gullis | Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan<br>Pobl yn Gyntaf Caerdydd |
| Gofalwyr Teuluol | 2 | Jacqui Caldwell<br>Swydd Wag | Cyswllt Conwy |
| Darparwyr Cymorth Teuluol | 2 | Alison Thomas<br>Swydd Wag | Grŵp Pobl |
| Cyflogaeth â Chefnogaeth | 1 | Lily Beyer | DFN Project Search |
| Cysylltiadau'r DU | 1 | Swydd Wag | |
| **Seddi Agored** | **Nifer y Seddi** | | |
| Unigolyn â diddordeb | 5 | Jon Day<br>Steve Barnard<br>Sian Owen<br>Laura White<br>Wayne Crocker | |


**Cynghorwyr**
Steve Beyer
Kathryrn Whitfield

## Ein haelodau

(Ebrill 2020 - Mawrth 2021)


| | Gogledd Cymru | Y Canolbarth/ Gorllewin Cymru | De Cymru | Tu allan i Gymru |
|---|---|---|---|---|
| Llawn | 13 | 8 | 46 | 3 |
| Cyswllt | 162 | | | |

# Ein harian



## Arian a dderbyniom eleni

| | | |
|---|---|---|
| | Grant Llywodraeth Cymru | £400,000 (17.66%) |
| | Prosiectau'r DU | £1,733,297 (76.51%) |
| | Hyfforddiant a Digwyddiadau | £2,418 (0.11%) |
| | Ymgynghoriaeth, rhwydweithiau a gwasanaethau a gynhelir | £122,368 (5.40%) |
| | Rhoddion | £7,047 (0.31%) |
| | Llog banc | £460 (0.02%) |
| | **Cyfanswm** | **£2,265,590 (100.00%)** |



## Arian a wariom eleni

| | | |
|---|---|---|
| | Staff a theithio | £496,568 (23.21%) |
| | Grantiau i Bartneriaid Prosiectau'r DU | £1,490,526 (69.68%) |
| | Cyrsiau a chynadleddau | £3,644 (0.17%) |
| | Gofalu am ein hadeilad | £39,4914 (1.85%) |
| | Digwyddiadau prosiect | £35,403 (1.65%) |
| | Rhedeg y swyddfa | £26,036 (1.22%) |
| | Costau llawrydd | £21,673 (1.01%) |
| | Cyfieithu | £18,028 (0.84%) |
| | TAW na ellir ei hadennill | £1,851 (0.09%) |
| | Ffioedd archwilio | £4,155 (0.19%) |
| | Dibrisiant | £1,293 (0.06%) |
| | Cyfarfodydd ymddireidolwyr | £586 (0.03%) |
| | **Cyfanswm** | **£2,139,254 (100.00%)** |

## Canlyniad diwedd blwyddyn:

**Mae'r gwarged o £126,336 yn cynnwys gwarged anghyfyngedig o £132,731 a diffyg cyfyngedig o £6,395 cyn trosglwyddiadau.**

# Ein blwyddyn mewn rhifau



## Dylanwadu ar bolisi

Wedi rheoli 4 Grŵp Trawsbleidiol ar gyfarfodydd Anabledd

150 o bobl ag anabledd dysgu wedi cael eu cyfweld yn astudiaeth Covid

1 Ymgyrch Consortiwm Anabledd Dysgu ar gyfer mynediad â blaenoriaeth i frechlyn Covid-19

Ymateb i 11 o ymgynghoriadau

## Hawdd Ei Ddeall Cymru

120 o ddogfennau hawdd eu deall

35 o gleientiaid

## Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i chi

52,548 o ymweliadau i’r wefan

Ymweliadau â 123,011 o dudalennau gwefan

1 Dudalen adnoddau Covid-19 wedi’i chreu a’i diweddaru’n ddyddiol yn ystod y pandemig

7,396 o ddilynwyr Twitter


4,234 wedi hoffi ar Facebook

Cyhoeddi 52 o erthyglau newyddion ar ein gwefan

## Hyfforddiant a digwyddiadau



**25** o ddigwyddiadau ar-lein ar wahân yn ystod ein cynhadledd flynyddol, 'Pawb'



Mynychodd **741** o bobl ddigwyddiadau ar-lein yn ein cynhadledd flynyddol, 'Pawb'



**5** sesiwn ar-lein rhad ac am ddim: 'Cefnogi Pobl i Fynd Ar-lein'



**14** sesiwn ar-lein rhad ac am ddim ar wneud gwybodaeth hawdd ei deall

## Engage to Change



Dechreuodd **46** o bobl ifanc gyflogaeth â thâl



Cynhaliodd **58** o bobl ifanc gyflogaeth



Dechreuodd **53** o bobl ifanc interniaethau

## Ffrindiau Gigiau



**31** o barau Ffrindiau Gigiau wedi'u gwneud hyd yn hyn ledled Cymru



**100** awr o gymdeithasu rhithwir yn ystod y pandemig



Lansiwyd **6** ardal newydd Tachwedd 2020: Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam